Cwestiynau ac atebion

| Cwestiwn: | Ateb: |
|---|---|
| A oes angen i blant wisgo gwisg Ysgol? | Na. Dim yn nhymor yr Haf. |
| Beth fydd y trefniadau ar gyfer Tymor yr Hydref a'r dyddiad dychwelyd i fy mhlentyn? | Nid ydym wedi derbyn unrhyw ganllawiau ar hyn o bryd ac felly nid ydym yn gwybod. Efallai na fydd pob plentyn yn gallu dechrau ar yr un pryd. Unwaith bydd canllawiau yn cael eu rhoi byddwn yn eich hysbysu. |
| Dysgu o hirbell | Bydd dysgu o hirbell yn ddarpariaeth barhaus o waith y gall plant ei wneud pan allant / neu pan fyddant yn barod ar unrhyw adeg trwy gydol yr wythnos. Dydd Mercher - bydd athrawon yn uwchlwytho gwaith / marcio / ac yn cwrdd â'r disgybl pe bai angen. Bydd yr athro yn darparu'r disgwyliad o ba weithgareddau sydd angen eu cwblhau, ac erbyn pryd. Bydd dysgu o hir bell ar gael i bawb gan gynnwys meithrin a derbyn. |
| Ffrydio byw – bydd hyn yn diwgwydd trwy TEAMS<br><br>Dilynwch y linc isod i ddysgu mwy am teams:<br><br>https://hwb.gov.wales/distance-learning-videos<br><br>https://www.youtube.com/watch?v=i0TlQXmFGdQ | Bydd amserlen gan blant, wedi eu trefnu mewn grwpiau penodol. (Rhennir hyn yn fuan). Wrth drefnu'r grwpiau, bydd staff yn ceisio sicrhau nad yw brodyr a chwiorydd yn cael yr un amser i geisio lleiahu'r pwysau ar y galw am dechnoleg gartref. Bydd y gwersi ffrydio byw ar gael i bawb gan gynnwys meithrin a derbyn. Rhaid i chi ddychwelyd y cytundeb cartref / ysgol i'ch plentyn gymryd rhan yn y cyfarfodydd / gwersi hyn. I ddechrau, bydd y sesiynau'n para tua 15 munud. Efallai bydd hyn yn newid wrth i ni cyfarwyddo â'r broses. |
| Atebais *na, neu efallai* yn yr holiadur, am ddychweliad fy mlentyn i'r ysgol. A oes capasiti ar gael o hyd i'm mhlentyn os yw ef / hi eisiau mynychu? | Efallai y bydd rhai lleoedd ar ôl mewn rhai grwpiau, ond bydd cyfyngiad ar argaeledd. Bydd lle yn y sesiynau pontio. |
| Ym mha ddosbarth bydd fy mhlentyn yn y flwyddyn academaidd 20-21? | Fe'ch hysbysir o ddosbarth eich plentyn ar gyfer blwyddyn academaidd 20-21 yn yr wythnos sy'n dechrau 6/7/2020 trwy e bost. |
| Pa bryd bydd ardoddiadau yn cael eu danfon i rieni? | Bydd adroddiadau'n dod atoch trwy e-bost yn ystod yr wythnos sy'n dechrau |

| | |
|---|---|
| | 6/7/2020 – **Sicrhewch bod e bost cyfredol gan yr Ysgol.** |
| Golchi dwylo? | Bydd golchi dwylo yn digwydd ar lawer o wahanol gyfnodau yn ystod y sesiynau gan gynnwys ond nid yn unig i:<br>• Dod i mewn i'r adeilad<br>• Defnyddio'r ty bach<br>• Cyffwrdd, llygaid, trwyn neu geg<br>• Chwarae y tu allan<br>• Tisian/ chwythu trwyn<br>• Cyswllt â gwaed / hylifau'r corff<br>• Cyn ac ar ôl bwyta ac yfed<br>• Cyn ac ar ôl dechrau gweithgareddau newydd<br>• Mynd adref |
| Pa systemau glanhau ac atal heintiau fydd ar waith? | Bydd staff glanhau yn cyrraedd bob bore i lanhau'r ysgol. Bydd ganddyn nhw amserlen lanhau drylwyr. Hefyd, bydd gennym staff glanhau ychwanegol a fydd yn glanhau trwy gydol y dydd. Bydd staff yr ysgol hefyd yn glanhau ardaloedd defnydd uchel yn rheolaidd.<br>Bydd llif unffordd o amgylch yr ysgol - wedi'i farcio'n glir. Bydd amserlen amser egwyl yn sicrhau nad fydd grwpiau o blant yn cymysgu. Mae canllaw 3m2 wedi'i gynghori rhwng disgyblion pan fyddant yn y dosbarth. Ni chaniateir unrhyw riant y tu mewn i adeilad yr ysgol ac ar yr buarth. Bydd y contractwyr ar safle'r ysgol hefyd yn dilyn gweithdrefnau hylendid a glanhau. Bydd yr holl staff yn dilyn canllawiau gweithredol agor yr ysgol. Bydd posteri gwybodaeth yn cael eu harddangos i staff a disgyblion. |
| Ty Bach | Bydd cyfyngiad o 3 phlentyn yn yr ardaloedd ty bach ar unrhyw un adeg. Bydd y toiledau'n cael eu monitro. Atgoffir disgybion am hylendid dwylo. |
| Beth sy’n digwydd os bydd rhywun yn sal? | Os yw plentyn yn mynd yn sâl ac rydym yn amau symptomau covid yn ystod y diwrnod Ysgol, mae yna ystafell **ynysu** yn yr ysgol. Cyn gynted ag y bydd disgybl yn arddangos symptomau, bydd y disgybl yn |

| | |
|---|---|
| | cael ei gadw yn yr ystafell nes bod rhieni / cofalwr yn gallu casglu. Rhaid casglu'r disgybl o fynedfa Rhodfa Brynmill NID y prif dderbynfa. **Bydd aelod o staff yn dod â'r plentyn allan i'r rhiant.** Bydd PPE ar gael i'r staff. |
| Beth all fy mhlentyn ddod ag ef i'r ysgol? | Yn nhymor yr haf - cyn lleied â phosib. Byrbryd, diod a chas pensil os oes angen. |
| Beth fydd yn digwydd yn yr wythnos bonito? | Anfonir amserlen atoch cyn gynted â phosibl. Pwrpas yr wythnos bontio yw i ddisgyblion gwrdd â'u hathrawon newydd a mynd i'w hystafell ddosbarth newydd. |
| Gall fy mhlentyn ddefnyddio ffynnon ddwr yr ysgol? | Na.  Ohewrydd callawiau yr asesiad risg , ni fydd hi'n bosib i'ch plenty ddefnyddio y ffynnon ddwr.  Dewch â photel diod. |

**Diwrnod olaf y tymor – Gorffennaf 17fed**